Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: MA-L/VG/0717/18

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Government.Committee.Business@gov.wales

7 Rhagfyr 2018

Annwyl Dai,

Ym mis Mai 2018, ysgrifennais atoch chi ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cymru i werthuso Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru). Dros yr haf, mae fy swyddogion wedi ymgymryd â gwaith i ddatblygu'r cynlluniau hyn ymhellach – gan gydnabod swyddogaeth allweddol gwerthuso yn gysylltiedig â'r cymal machlud a'r cymal adolygu sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth ac unrhyw benderfyniad yn y dyfodol ynghylch parhau â'i ddarpariaethau ar isafbris am alcohol yng Nghymru.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynglŷn â'r ymchwil a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar y posibilrwydd o gyfnewid alcohol am sylweddau eraill. Rwy'n ymwybodol bod hyn o ddiddordeb penodol i aelodau'r Pwyllgor a'i fod yn argymhelliad penodol a gafodd ei gynnwys yn adroddiad cyfnod 1 gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

Cynlluniau ar gyfer y Gwerthusiad:

Mae'r diagram Damcaniaeth Newid, yn amlinellu'r ffynonellau posibl o ddata wedi'i ddiweddaru ac mae wedi'i atodi. Caiff y gwerthusiad annibynnol ei gomisiynu drwy broses dendr agored dros yr ychydig fisoedd nesaf. Caiff y gwaith ei gomisiynu fel un contract, ond bydd wedi ei rannu i bedair lot fel a ganlyn:

Lot 1: Dadansoddiad cyfraniad

Trosolwg o'r gofyniad: Rhagwelir y bydd y dadansoddiad cyfraniad yn ystyried cyd-destun ehangach polisi alcohol yn ogystal â dod â'r cyfresi data perthnasol a chanfyddiadau o'r astudiaethau unigol a'r gwaith gwerthuso (gan gynnwys y gwaith a wnaed yn yr Alban) at ei gilydd i lywio'r asesiad o gyfraniad cyflwyno isafbris i amcanion y polisi. Bydd yn ofynnol i'r contractwr ddarparu adroddiad interim ar ôl dwy flynedd (2021). Bydd hwn yn adroddiad sy'n gwneud asesiad cychwynnol o gyfraniad isafbris i amcan y polisi a bydd yn amlinellu'r ffynonellau data ychwanegol y mae eu hangen i wella dibynadwyedd yr asesiad cyfraniad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd adroddiad interim 2021 yn llywio'r adroddiad mewnol o lefel yr isafbris uned a gynhelir gan swyddogion Llywodraeth Cymru, ddwy flynedd wedi gweithredu. Bwriedir darparu'r adroddiad terfynol drafft erbyn diwedd mis Tachwedd 2023.

Lot 2: Ymchwil i'r effaith ar fanwerthwyr

Trosolwg o'r gofyniad: Rhagwelir y bydd y lot hon yn defnyddio dulliau cymysg i gasglu adborth gan fanwerthwyr ar weithrediad yn ogystal â'r effaith y mae isafbris wedi ei gael arnynt. Bydd angen i hyn gynnwys masnachwyr alcohol i'w yfed ar y safle a masnachwyr alcohol i'w yfed oddi ar y safle, yn ogystal â manwerthwyr bach a mawr. Bydd angen cwblhau gwaith sylfaenol erbyn diwedd mis Awst 2019. Gwneir y gwaith dilynol cyntaf tua 18 mis ar ôl gweithredu. Rhagwelir y bydd y gwaith dilynol terfynol yn cael ei wneud ar ôl tua thair blynedd a hanner (tua mis Mawrth 2023). Bydd angen cyflwyno'r adroddiad terfynol drafft fis Medi 2023.

Lot 3: Gwaith ansoddol gyda gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau

Trosolwg o'r gofyniad: Mae darn cychwynnol o waith wedi ei gomisiynu yn ddiweddar a bydd yn gweithio gyda darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau, gan edrych ar y posibilrwydd y bydd pobl yn cyfnewid alcohol am sylweddau eraill yn sgil cyflwyno isafbris am alcohol. Bydd hwn hefyd yn ystyried cymorth ychwanegol sydd ei angen i helpu pobl baratoi. Mae'r gwaith hwnnw wedi'i gomisiynu fel contract unigol ar wahân gan fod angen yr adborth ar anghenion cymorth yn ystod y cam gweithredu. Fodd bynnag, gall hyn weithredu fel gwaith sylfaenol gyda'r grŵp hwn. Y gofyniad ar gyfer y grŵp hwn yw gwneud rhagor o waith gyda'r grwpiau hyn ar ôl gweithredu. Bydd y gwaith dilynol cyntaf yn cael ei wneud tua 18 mis ar ôl gweithredu. Rhagwelir y bydd y gwaith dilynol terfynol yn cael ei wneud ar ôl tua thair blynedd a hanner (tua mis Mawrth 2023). Bydd angen cyflwyno'r adroddiad terfynol drafft fis Medi 2023.

Lot 4: Asesiad o effaith isafbris am alcohol ar y boblogaeth ehangach o yfwyr

Trosolwg o'r gofyniad: Bydd y lot hon yn ystyried effeithiau deddfwriaeth ar y boblogaeth ehangach o yfwyr. Bydd yn cynnwys gwaith ag yfwyr cymedrol, peryglus a niweidiol. Bydd hefyd yn cynnwys dadansoddiad o wariant aelwydydd. Bydd angen cwblhau gwaith sylfaenol cyn diwedd mis Awst 2019. Gwneir y gwaith dilynol cyntaf tua 18 mis wedi gweithredu. Rhagwelir y bydd y gwaith dilynol terfynol yn cael ei wneud ar ôl tua thair blynedd a hanner (tua mis Mawrth 2023). Bydd angen cyflwyno'r adroddiad terfynol drafft fis Medi 2023.

Cyhoeddwyd Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw yn amlinellu'r uchod rai wythnosau'n ôl i roi gwybod i'r farchnad am y bwriad i gomisiynu'r gwaith hwn.

Gwaith ymchwil ychwanegol:

Comisiynwyd cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru Beaufort ym mis Medi 2018. Roedd y cwestiynau yn asesu pa mor ymwybodol yr oedd pobl o'r isafbris am alcohol a'u barn arno. Mae'r data wedi ei dderbyn yn ddiweddar a bydd swyddogion yn paratoi adroddiad i'w gyhoeddi yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

Yn olaf, fel yr amlygwyd uchod, mewn ymateb i un o'r argymhellion gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn eich adroddiad craffu Cyfnod 1 ac argymhellion Panel Cynghori Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau, mae ymchwil wedi'i gomisiynu i ystyried canfyddiadau darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth o'r tebygolrwydd y bydd unigolion yn cyfnewid alcohol am sylweddau eraill a'r hyn y mae gwasanaethau yn ei

wneud i helpu pobl i baratoi. Mae'r contract wedi'i ddyfarnu i Figure 8 Consultancy Services Ltd, mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru a Phrifysgol Glyndŵr.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth ddiweddaraf hon yn ddefnyddiol i chi ac edrychaf ymlaen at barhau i ymgysylltu â'r Pwyllgor wrth inni weithredu'r Ddeddf.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Atodiad 1

Theori o Newid – IBU (Isafbris yr Uned) i Gymru – yn dangos yr astudiaethau o lefydd eraill sydd ar gael ac astudiaethau eraill posibl i'w comisiynu.

NODER: Mae'r testun coch yn cyfeirio at waith yr ystyrir ei gomisiynu. Mae'r testun glas yn golygu astudiaeth o'r Alban. Mae'r testun du yn dangos data rheolaidd.